**Sir Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

2nd February 2016

Dear Darren,

**Public Accounts Committee Report on the Scrutiny of Accounts 2014-15**

**Response to the report**

Please find enclosed a copy of the response to the above report which will be laid before the Table Office.

I would like to thank you and the Committee for the careful and considered way in which you undertook the investigation and produced the report.

Yours,

Derek

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2014-15**

Rwyf yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r pum argymhelliad sy'n berthnasol i Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

***Argymhelliad 21****. Wrth fynd ar drywydd ei argymhelliad yn ei waith craffu ar gyfrifon 2013-14, ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella cyflwyniad ei chyfrifon i sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy yn rhwydd ac yn hwylus i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru heb wneud unrhyw newidiadau mawr eto yng nghyflwyniad ei chyfrifon ond mae'n nodi ei bwriad i wireddu ei hymrwymiad i wneud hynny. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar symleiddio'i chyfrifon er mwyn gwireddu ei hymrwymiad i lunio set symlach o gyfrifon gyda naratif cryfach erbyn y cyfnod cyfrifyddu nesaf. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld newidiadau arwyddocaol yn deillio o brosiect mireinio Llywodraeth Cymru ac mae'n argymell bod angen mwy o fanylion, mewn Atodiadau os oes angen hynny, yn y cyfrifon ynghylch dadansoddi gwariant ac y dylai'r cyfrifon yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion am y grantiau a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan wariant rhaglenni. (Tudalen 70)*

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i lunio cyfrifon symlach a mwy cryno yn unol â'r canllawiau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gytuno ar y newidiadau angenrheidiol, a'u cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio Adroddiad Grantiau blynyddol sy'n cynnwys manylion sylweddol ynghylch y grantiau sydd wedi'u dyfarnu. Bydd dolenni i'r adroddiad hwn yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn y Cyfrifon Blynyddol.

***Argymhelliad 22****. O ran gwella hwylustod i'r cyhoedd a thryloywder cyfrifon Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu dolenni at ei dogfennau cyfrifon ar-lein sy'n dangos llif yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn i'r cyhoedd allu 'dilyn' yr arian a gweld sut mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid. (Tudalen 70)*

Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu dolenni a chynnwys atodol at ei dogfennau cyfrifon ar-lein i ddangos llif yr arian i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

***Argymhelliad 23****. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynaliadwyedd ac, er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion a gynhwysir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru'n dangos gostyngiad parhaus mewn allyriadau carbon neu dunelli o wastraff, heblaw'r gwymp fawr o ran defnyddio trydan, mae'n nodi nad yw'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ffigurau gwastraff yn y cyfrifon yn rhesymol ond rydym yn credu y dylai gwaith ychwanegol gael ei wneud i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru*

*adolygu ei dull o leihau'r defnydd ar ynni ar draws ei hystad ac ystyried opsiynau arloesol i gyflawni hyn. (Tudalen 70)*

Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth rheoli carbon uchelgeisiol ar gyfer ein holl ystad weinyddol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgarwch â'r bwriad o leihau'r ynni a ddefnyddiwn a'n hôl-troed carbon**.** Caiff ein Strategaeth ei rhoi ar waith bob blwyddyn trwy gynlluniau gweithredu blynyddol pendant a luniwyd i dargedu mannau lle ceir aneffeithlonrwydd.

Mae'r dull wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn. Ar 1 Ebrill 2015, gwelwyd bod allyriadau carbon wedi gostwng 32% ers 2010/11. Mae hyn yn gyfraniad sylweddol at gyflawni amcanion y Llywodraeth hon ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae defnydd trydan a nwy hefyd wedi lleihau'n sylweddol ers 2010/11. Rydym yn rhagweld gostyngiad pellach mewn carbon a'r defnydd o ynni erbyn diwedd 2015/16. Mae ein prif weithgarwch yn cynnwys system gadarn o gasglu a dadansoddi data ynni/carbon; mabwysiadu dull cynaliadwy ar gyfer dyluniad pob prosiect adnewyddu adeiladau, mewngorffori mesurau arbed ynni a thechnolegau adnewyddadwy yn ein cynlluniau gwella a rhesymoli ein hystad ymhellach. Ymysg enghreifftiau o'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd mae:

- Sicrhau bod cynlluniau adnewyddu/uwchraddio yn cynnwys dyluniad sy'n effeithlon o ran ynni, gan gynnwys goleuadau mwy effeithlon a gwell dulliau i'w rheoli
- Gweithredu polisi o osod tymheredd gwresogi/oeri penodol ar draws yr ystad weinyddol, er mwyn lleihau'r defnydd o ynni, lleihau allyriadau ac arbed arian
- Gosod cyfarpar cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar yr ystad weinyddol gan gynnwys biomas a phaneli solar.

Gwelir effeithlonrwydd a pherfformiad ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yn ein hadroddiad Cyflwr yr Ystad, a gyhoeddir yn flynyddol. Mae'n cynnwys data ar berfformiad allyriadau carbon/ynni yng nghyd-destun ein llwyddiannau amgylcheddol ehangach. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar Gyflwr yr Ystad (2014/15) ym mis Tachwedd 2015.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ymrwymo i wella ei pherfformiad rheoli gwastraff yn barhaus, a lleihau ymhellach swm y gwastraff mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Mae'n werth nodi bod swm y gwastraff o'n hystad wedi lleihau tua 348 o dunelli dros y pedair blynedd diwethaf, a byddwn yn ceisio gwella ein gwaith o reoli ein gwastraff ymhellach yn ystod 2015/16 a'r tu hwnt.

***Argymhelliad 24.*** *Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli prosiectau ac yn benodol materion ynghylch y prosesau sydd ganddi ar gyfer adolygu contractau cyn i ddyn nhw ddod i ben er mwyn sicrhau mai'r opsiynau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian sy'n cael eu dewis. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ffrwd waith o dan y rhaglen 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol' i nodi materion o fewn prosesau caffael Llywodraeth Cymru ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Er hynny, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y gwaith hwn yn parhau ac*

*yn faes lle mae angen gwelliant. Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi’r newyddion diweddaraf i’r Pwyllgor yn rheolaidd am gynnydd y gwaith hwn. (Tudalen 71)*

Mae ffrwd waith Llywodraethu Masnachol y rhaglen Paratoi ar gyfer y Dyfodol wedi argymell a chyflwyno cronfa ddata contract byw sy'n cael ei defnyddio i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn adolygu contractau'n rheolaidd cyn iddynt ddod i ben fel ffordd o nodi arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd i arbed arian. Wrth symud ymlaen, byddwn yn hyfforddi ein rheolwyr contractau a'n Gwasanaethau Caffael Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cyd-weithio i gynllunio strategaethau ailgaffael/gadael ar gyfer contractau ddim llai na 12 mis cyn iddynt ddod i ben. Bydd Llywodraeth Cymru yn falch o roi diweddariadau rheolaidd ac mae'n ystyried sut y bydd modd cyflawni hyn.

***Argymhelliad 25.*** *Ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau ac mae’n credu bod enghreifftiau o hyd o achosion lle mae angen gwella prosesau rheoli grantiau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau. (Tudalen 71)*

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn rheoli grantiau. Mae cyllid grant yn ffordd hanfodol o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi'u hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i wella'r gwaith o reoli grantiau a bydd y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau. Cyhoeddwyd adroddiad 2015 ym mis Ionawr 2016.